Adroddiad Blynyddol 2007–2008

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Gwasanaethau Plant

Ynys Môn	1. Gwasanaeth Teulu Gwledig – Llangefni
Gwynedd	2. Caban Bach – Blaenau Ffestiniog
	3. Amser Ni – Caernarfon
Conwy/Sir Ddinbych	4. Cyfle – Henllan
Sir y Fflint	5. Gofalwyr Ifanc a Theuluoedd sy'n Bwysig Sir y Fflint – Penarlâg a Bwcle
Wrecsam	6. Partneriaeth Compass – Cyngor a Llety – Cymorth i Bobl sy'n Gadael Gofal – Tenantiaeth a Chymorth i Deuluoedd
Powys	7a. Rhieni ar Waith a Chyfarfodydd Grŵp Teulu 7b. Gwasanaeth Cymorth Dwys Amlasiantaeth Barnardo's (BMISS)
Ceredigion	Dim gwasanaeth
Sir Benfro	8. Cyswllt Teulu Sir Benfro – Doc Penfro
Sir Gaerfyrddin	9. Cyswllt Teulu a Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin – Llanelli
Abertawe	10. Mae Plant yn Bwysig Abertawe 11. Partneriaeth BAYS – Gadael Gofal – Llety â Chymorth – Digartrefedd Pobl Ifanc
Castell-nedd Port Talbot	12. Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot – Materion Rhianta – CHiP – Cynnwys Teuluoedd
Pen-y-bont ar Ogwr	13. Taith (yn ymdrin â saith awdurdod lleol)
Bro Morgannwg	14a. Cysylltiadau Cymunedol
Caerdydd	14b. Cysylltiadau Cymunedol 15. Mabwysiadu a Maethu (Cymru gyfan) 16. Teuluoedd Trelâi 17. Stryd Neville 18. Seraf (Cymru gyfan) 19a. Partneriaeth Heol Marlborough – Tai â Chymorth i Bobl Ifanc Sengl – Teuluoedd Ifanc Caerdydd – Caterpillar
Rhondda Cynon Taf	20. Springhills a Glyncoch Rhondda Cynon Taf 21. Cymorth Dwys i Deuluoedd – Llwynypia 22. Drws Agored – Pontypridd
Merthyr Tudful	23. Partneriaeth Merthyr – Gwasanaeth 16+ – Gofalwyr Ifanc – Blynyddoedd Cynnar a'r Gymuned – Cymorth i Deuluoedd
Caerffili	24. Gofalwyr Ifanc a Mentora a Chyfeillio Caerffili – Risga
Blaenau Gwent	25. Gwasanaeth Blaenau Gwent – Glyn Ebwy
Torfaen	26. Teuluoedd yn Gyntaf Torfaen – Blaenafon
Sir Fynwy	Dim gwasanaeth
Casnewydd	19b. Heol Marlborough – Teuluoedd Ifanc Casnewydd – Out There

Canghennau Adwerthu

1. Aberdâr (2 gangen)
2. Y Fenni
3. Abergele
4. Aberystwyth
5. Bangor
6. Bargoed
7. Coed-duon
8. Brynmawr
9. Caernarfon
10. Caerdydd
11. Aberteifi
12. Caerfyrddin
13. Bae Colwyn (agorwyd Mawrth 2008)
14. Llandudno
15. Glyn Ebwy
16. Hwlffordd
17. Llangollen
18. Llanelli
19. Llanrwst
20. Aberdaugleddau
21. Yr Wyddgrug
22. Y Drenewydd
23. Pontypridd
24. Porthmadog
25. Prestatyn
26. Y Rhyl
27. Abertawe
28. Wrecsam

Grwpiau Cynorthwywyr Barnardo's

1. Y Fenni
2. Rhydaman
3. Y Bermo
4. Y Barri
5. Biwmares
6. Pen-y-bont ar Ogwr
7. Cas-gwent
8. Y Bont-faen
9. Grangetown – Caerdydd
10. Hwlffordd
11. Mynyddygarreg a Chydweli
12. Trefyclo
13. Yr Wyddgrug
14. Arberth
15. Castell-nedd
16. Porthcawl
17. Llanelwy
18. Tyddewi

Grwpiau Proffesiynol Barnardo's

19. Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Ifanc Caerdydd
20. Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Hwlffordd

Grwpiau 'Cyfeillion' Barnardo's

21. Sir Gaerfyrddin
22. Partneriaeth Heol Marlborough
23. Caerffili



Stori Sarah...

Bu Sarah yn helpu i adrodd ei hanes ei hun.

Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adnabod Sarah drwy gydol ei hoes ac fe'i rhoddwyd mewn gofal pan oedd yn 14 oed. Tyfodd i fyny mewn cefndir anhrefnus, lle'r oedd ei mam mewn perthnasoedd treisgar ac yn arfer meddwi a chymryd cyffuriau i ymdopi. Bu Sarah yn symud o gwmpas drwy gydol ei blynyddoedd cynnar. Roedd hi'n arfer hunan-niweidio a chymerodd orddos o dabledi gan nad oedd yn gwybod sut i wella pethau. Pan gafodd ei rhoi mewn gofal, ni allai ymgartrefu o hyd; methodd y naill leoliad ar ôl y llall.

Dechreuodd Sarah gael rhyw pan oedd yn 12. Pan oedd yn 14, cafodd ei chyflwyno gan ei ffrind i ddyn 35 oed, Darren, a ddywedodd wrthi ei fod yn ei charu ac y byddai'n gofalu amdani. Arferai fynd â hi i drefi a dinasoedd cyfagos i gwrdd â'i ffrindiau. Byddai'n cael ei chasglu mewn ceir gan Darren a'i ffrindiau. Ar ôl rhyw dri mis, dechreuodd Darren droi'n dreisgar tuag ati – yn ei dyrnu a'i chicio. Byddai'n mynnu rhyw drwy'r amser ac nid oedd ots ganddo ei fod yn ei brifo. Nid oedd hi'n gwybod sut i wneud iddo ddarfod.

Un dydd, pan aeth â hi i un o'r fflatiau y bu ynddo o'r blaen, gofynnodd iddi gael rhyw gyda'i ffrindiau. Gwrthododd hithau a bygythiodd Darren ei churo cyn gorfodi iddi wneud fel y dywedwyd wrthi. Digwyddodd hyn fwyfwy, ac yn aml byddai'n cynnwys merched ifanc eraill hefyd.

Ni wyddai Sarah beth i'w wneud – nid oedd neb ganddi i droi ato. Roedd wedi'i gwahardd o'r ysgol ar ôl iddi fethu mynychu'r 'uned ynysu'. Fe'i hanfonwyd i'r uned ynysu am ymddwyn yn wael yn y dosbarth a dechrau ymladd, ond trais oedd yr unig beth a oedd yn gyfarwydd iddi – dyna sut y dangoswyd iddi ymddwyn drwy gydol ei hoes. Nid oedd wedi meithrin perthynas dda ag unrhyw un o'r gofalwyr yn ei lleoliadau maeth oherwydd ni arhosodd unrhyw le'n ddigon hir. Nid oedd ar neb eisiau iddi aros gan ei bod yn cadw rhedeg i ffwrdd i fod gyda Darren. Credai'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod Sarah yn rhoi ei hun mewn perygl felly fe'i rhoddwyd mewn uned breswyl.

Dechreuodd Sarah redeg i ffwrdd o'r uned breswyl a phan fyddai'n mynd yn ôl byddai staff fel arfer wedi adrodd ei bod ar goll. Byddai'r heddlu weithiau'n dod i siarad â hi am sut roedd yn gwastraffu amser yr heddlu drwy fynd 'ar goll' a bod ganddynt bethau gwell i'w gwneud. Dywedodd pobl wrthi ei bod yn ceisio cael sylw pan ddechreuodd dorri ei hun yn amlach byth.

Fe'i hanfonwyd i weld seiciatrydd a ddywedodd fod ganddi 'anhwylder ymddygiad difrifol', na allai weld sut roedd ei hymddygiad yn effeithio ar eraill ac na fyddai byth yn gallu cadw at ffiniau. Argymhellwyd ei rhoi mewn uned ddiogelwch er mwyn ei hamddiffyn.

Ar yr adeg hon y dechreuodd cysylltiad Sarah â Seraf. Mae gwasanaeth Seraf yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc y cam-fanteisiwyd yn rhywiol arnynt, neu sydd mewn perygl cam-fanteisio rhywiol, ac yn gweithio ar draws pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Ymhen tri mis, roedd ei hachlysuron o fynd ar goll wedi lleihau o sawl achlysur yr wythnos – ac roedd y rheini'n para rhwng saith awr a naw niwrnod – i ddim ond dau neu dri chyfnod byr mewn deufis. Nid yw byth yn mynd ar goll erbyn hyn, mae'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd, nid yw'n hunan-niweidio rhagor ac mae'n gobeithio mynd i'r coleg a bu yn yr un lleoliad drwy gydol yr amser y bu'n ymwneud â'r gwasanaeth. Mae'n bwriadu aros yno nes ei bod yn 18 oed. Yn ddiweddar, bu'n adolygu ei nodau ar gyfer y flwyddyn ac roedd bron wedi cyrraedd y cyfan.

Mae Sarah yn deall bellach sut y cam-fanteisiwyd arni a sut i amddiffyn ei hun yn well yn y dyfodol.

Erbyn hyn, mae'n gwirfoddoli gyda Seraf, yn cymryd rhan fel mentor mewn sesiynau gwaith grŵp gyda phobl ifanc eraill i'w helpu i ddeall yn well beth yw peryglon rhedeg i ffwrdd o'r ysgol neu eu cartref a sut y gall oedolion sydd eisiau camfanteisio arnynt eu targedu.

Am fwy o wybodaeth am waith gwasanaeth Seraf ffoniwch 029 2049 1743 neu anfonwch e-bost at serafservice@barnardos.org.uk

Gair gan y Cyfarwyddwr

Bu'n flwyddyn o dwf parhaus i Barnardo's Cymru, y mae ganddo bellach 42 o wasanaethau yn gweithio yn 20 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn syml, mae'n rhaid inni wneud gwahaniaeth wrth helpu plant a phobl ifanc i fodloni eu potensial. Canolbwyntiwn yn helaeth ar geisio cyflawni canlyniadau effeithiol i bob unigolyn sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae'n bwysig arddangos bod yr hyn a wnawn yn gweithio, nid lleiaf oherwydd bod hawl gan yr unigolion a'r cwmnïau lawer sy'n ein cefnogi'n ariannol i wybod bod eu rhoddion yn cael eu defnyddio'n dda.

Datblygwyd y rhan fwyaf o'n gwaith mewn gwasanaethau a phrosiectau mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol yn y sector cyhoeddus – mewn iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ymagwedd hon yn atgyfnerthu y gallwn oll yn aml iawn gyflawni mwy drwy gydweithio nag y gallem ar ein pen ein hunain. Mewn hinsawdd o wariant cyhoeddus tynn, hoffwn ddiolch i'n partneriaid sector cyhoeddus am barhau i fuddsoddi yn rhai o'n gwasanaethau craidd.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol ym mhopeth a wnawn yn Barnardo's Cymru, ac mae'n rhaid llongyfarch nifer gynyddol y bobl sy'n barod i roi o'u hamser a'u profiad i'n helpu i ddarparu gwasanaethau gwell, am y gwerth ychwanegol sylweddol maent yn ei gyfrannu.

Dyma fy adroddiad blynyddol diwethaf yn Gyfarwyddwr Barnardo's Cymru gan fy mod yn gadael y sefydliad. Mae'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dda a dymunaf y gorau i'm holynydd a'n holl bobl yn eu gwaith ledled Cymru wrth iddynt barhau i ddangos sut y maent yn 'credu mewn plant'.

Raymond Ciborowski
Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru

Gair gan y Cadeirydd

Mae nifer y perchnogion tai mewn un ardal awdurdod lleol benodol yn Ne Cymru sy'n wynebu cael eu troi allan wedi dangos cynnydd enfawr y naill flwyddyn ar ôl y llall.

Mae hyn gan eu bod fel benthycwyr wedi syrthio'n ôl gyda'u had-daliadau morgais. Yn anffodus, mae'n ddigon posibl y bydd y sefyllfa hon yn cael ei hailadrodd ar draws llawer ardal arall yng Nghymru wrth i economi'r wlad frwydro.

Wrth reswm, bydd plant yn byw yn y rhan fwyaf o'r cartrefi hyn. Os nad oes modd fforddio ad-daliadau morgais, beth arall y mae teuluoedd yn mynd hebddo? Nid mewn termau ariannol yn unig, ond hefyd o ran cyfleoedd, lles meddyliol a chartref sefydlog?

Nid yw'n syndod yn yr hinsawdd ariannol hon fod Barnardo's wedi nodi mai 'tlodi' yw'r her fwyaf sy'n wynebu teuluoedd yng Nghymru wrth iddynt geisio ymdopi â bywyd bob dydd. Mae gwaith ein gwasanaethau ledled ardaloedd awdurdod lleol Cymru yn dod â'r sefydliad i gysylltiad â chanlyniadau tlodi bob dydd. Ond eto, er gwaethaf yr holl bwysau, mae cadernid mawr ymhlith y plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaeth ac mae ymdrech barhaus i newid eu sefyllfa – gyda'n cymorth ni.

Yn y cyd-destun hwn, rwyf yn falch ein bod ni yn Barnardo's Cymru yn dal i gredu'n angerddol mewn plant a phobl ifanc a chredu yn eu potensial i gyd; mae'n bleser gennyf fod yn Gadeirydd newydd Pwyllgor Cenedlaethol Barnardo's Cymru a bod yn gysylltiedig â'r frwydr barhaus yn erbyn effeithiau tlodi ledled Cymru. Gobeithio y byddwn yn 2008-2009, a'r tu hwnt, yn cael effaith mor gadarnhaol ag y cawsom dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Yn olaf, ac ymhell o fod yn lleiaf, hoffwn ddiolch i'n Cyfarwyddwr sy'n ymadael, Raymond Ciborowski, am ei ymdrechion yn ystod ei amser yn y swydd. Mae Barnardo's Cymru wedi newid llawer dan ei arweinyddiaeth ef ac mae'n gadael sefydliad cryf sy'n barod i symud ymlaen.

Eleanor Williams
Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Barnardo's Cymru

Ein defnyddwyr gwasanaeth

Yn ystod y flwyddyn, bu dros 8,700 o bobl – plant a phobl ifanc agored i niwed a'u rhieni – yn defnyddio ein gwasanaethau ledled Cymru. Dengys y ffigur hwn gynnydd naw y cant mewn niferoedd ers 2006-2007, sy'n ffigur sylweddol. Ochr yn ochr â gwaith mabwysiadu a maethu, darparu gwyliau byr i blant a phobl ifanc anabl, cefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth yn ymdopi a gweithio gyda phobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddigartref, buom hefyd yn gweithio gyda:

- gofalwyr ifanc
- tadau yn y system garchardai
- plant a phobl ifanc sy'n byw ffyrdd o fyw peryglus ar y stryd
- teuluoedd y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt
- plant a phobl ifanc sydd wedi niweidio eraill yn rhywiol
- plant a phobl ifanc y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt.

Rydym wedi parhau i gyflwyno gwasanaethau i ystod eang o ddefnyddwyr fel y dengys siart (1).



Yn benodol, nod Barnardo's Cymru yw cyflwyno gwasanaethau i'r rheini y mae angen ein cymorth arnynt fwyaf; o ganlyniad, rydym yn targedu rhai grwpiau lleiafrif penodol y gwyddom eu bod dan yr anfantais fwyaf; dyma niferoedd y defnyddwyr o rai o'r grwpiau hynny fel canran o'n 8,700 o ddefnyddwyr cyffredinol:



Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… gyfleoedd i ddysgu, mwynhau a chyflawni

Bu Amser Ni yng Ngwynedd yn galluogi pobl ifanc anabl i gymryd rhan mewn penwythnos o weithgareddau awyr agored, gan roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau newydd fel dringo, rhwyfo a saethyddiaeth.

Yng Nghaerffili, roedd 75% o ofalwyr ifanc yn fodlon ar ôl cwblhau sesiynau grŵp yn edrych ar effaith eu dyletswyddau gofalu ar addysg, ar waith neu ar hyfforddiant, ac roedd 90% yn deall yr opsiynau a'r buddion sydd ar gael iddynt yn well a gofynnodd 40% i'r gwasanaeth gysylltu â'u hysgol i edrych am gymorth ychwanegol iddynt.

"Rydw i wir yn mwynhau ein sesiynau ac yn falch fy mod wedi magu perthynas mor gadarnhaol â Katie a'i mam. Rydw i bob amser yn edrych ymlaen at ddydd Iau a gweld Katie. Teimlaf ei bod yn fraint mai fi oedd y cyntaf i fynd â Katie i nofio. Mae'n wych ei gweld hi'n magu mwy o hyder bob wythnos yn y dŵr."

Gweithiwr Sesiynol, Cysylltiadau Cymunedol Caerdydd a Bro Morgannwg

Bu Cysylltiadau Cymunedol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn rhoi cyfleoedd i bobl anabl ifanc fwynhau gweithgareddau cymdeithasol nad oeddent wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen.

Bu pobl ifanc o wasanaeth BAYS yn Abertawe yn cynorthwyo i lunio cynnig llwyddiannus i Gronfa 'Dyma Dy Gyfle' y Loteri Fawr i wneud ffilm am sut beth yw bod yn ifanc ac yn ddigartref. Defnyddir y ffilm hon i addysgu disgyblion blwyddyn 11 mewn ysgolion cyfun yn Abertawe.

"Cefais fy swydd gyntaf gyda diolch i gymorth gan Barnardo's gyda hyfforddiant a magais ddigon o hyder i ymgeisio."

John, defnyddiwr gwasanaeth, gwasanaeth 16+ Merthyr

Bu gwasanaeth 16+ Merthyr yn cynnal 'clwb swyddi' wythnosol yn galluogi pobl ifanc i gael gafael ar gyrsiau byr, y rhyngrwyd a gwybodaeth am gyflogaeth. O'r bobl ifanc dan sylw, roedd gan 80% gynllun gweithredu 'chwilio am swydd', llwyddodd 100% o'r rheini a fynychodd i gyflawni dau OCN a chwblhaodd 80% CV a pharatoi am swydd.

"Mae fy merch wrth ei bodd yn dod i'r sesiwn 'Super Dads' ac yn gofyn "pryd mae dydd Sadwrn Super Dads?" Rydw i wrth fy modd hefyd, gan fy mod i'n cael hwyl gyda fy merch fach ac mae hi'n cael hwyl gyda mi. Mae'n anodd bod ar wahân i'w mam, ond gyda Super Dads, rwy'n cael y cyfle i chwarae, dysgu a mwynhau bod gyda hi. Rwyf hefyd yn cael cyfarfod â thadau eraill a siarad am sut beth yw bod yn dad."

defnyddiwr gwasanaeth, gwasanaeth Rhieni ar Waith Powys

Drwy'r creche yn y Gwasanaeth Teulu Gwledig ar Ynys Môn, adroddodd 80% o rieni fod sgiliau cymdeithasol eu plentyn wedi gwella, fel rhannu a gwneud ffrindiau. Adroddodd 70% fod sgiliau iaith wedi datblygu.

Bu gwasanaeth Mae Plant yn Bwysig Abertawe yn cynnal chwe grŵp Dechrau Ysgol yn canolbwyntio ar y cyfnod pontio cychwynnol i'r ysgol. Cynhaliwyd y rhain yn y tair ysgol Dechrau'n Deg yn yr ardal; adroddodd yr athrawon fod plant yn ymsefydlu'n llawer gwell yn yr ysgol.

"Mae fy merch yn gymdeithasol iawn ac mae'n cael y symbyliad cywir drwy ddod i'r creche – gallaf ymlacio ar y diwrnod hwnnw. Mae'n wych – mwy o gymorth nag y gallech ei ddychmygu."

defnyddiwr gwasanaeth, Tîm Cefnogi Plant a Rhieni Trelái

Bu Taith, sy'n wasanaeth Cymru-gyfan, yn datblygu DVD ac adnodd llyfr gwaith gyda'r nod o hyrwyddo agweddau ac ymddygiad rhywiol iachus ymhlith pobl ifanc. Gwerthwyd dros 500 copi o becyn 'Offside' ledled y DU ac Ewrop. Mae'r adnodd wedi'i werthuso'n llwyddiannus ac wedi'i brynu gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i lywio darpariaeth addysg ryw mewn ysgolion uwchradd.

“Roedd y cynllun chwarae eleni yn brofiad da iawn i Richard ac mae ei dymer ddrwg a’i ffrwydradau bron wedi diflannu. Roedd yn deimlad bendigedig gwybod ei fod yn cael amser gwych ac y byddai’n dod adref mewn hwyliau da ac roedd hynny’n ein helpu i gyd i fwynhau cwmni ein gilydd i’r eithaf. Hollol berffaith; diolch gan bob un ohonom!”

Mam Richard, Gwasanaeth Blaenau Gwent, Glyn Ebwy

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… fwynhau iechyd emosiynol, corfforol a meddyliol da

Adroddodd rhieni sy'n rhan o wasanaeth Caban Bach ym Mlaenau Ffestiniog bod eu lles meddyliol eu hunain wedi cynyddu 85% ar ôl cwblhau'r Cwrs Rhianta, yn ôl arf asesu achrededig yr Holiadur Iechyd Cyffredinol (HIC).

"Gwnaethon nhw fy helpu i gael hunan-barch; fy helpu i gael lle yn fy ysgol newydd. Rwy'n teimlo bod rhywun wedi gwrando arnaf gan fod fy mhroblemau i gyd wedi'u datrys erbyn hyn."

Shelly 16 oed, Out There, Partneriaeth Heol Marlborough, Casnewydd

Bu tri o bobl ifanc o wasanaeth Compass yn Wrecsam yn cyfrannu at Ymgynghoriad Cymru Gyfan y Comisiwn Archwilio gyda phobl ifanc yn eu hadolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae'r Prosiect Iechyd a Lles Emosiynol yng ngwasanaeth Cyfle wedi cefnogi grŵp o ddynion ifanc sydd dan glo i gynhyrchu canllaw dwyieithog i eraill sydd dan glo am y tro cyntaf. Rydym wedi defnyddio'r pamffled hwn gyda 350 o bobl ifanc fel arf i hybu ymwybyddiaeth ac i gefnogi pobl ifanc eraill sy'n mynd drwy'r broses hon.

"Ers cryn dipyn nawr, pan fyddai pobl yn siarad â mi am fy mab byddai bob amser am bethau y mae wedi'u gwneud o'i le; mae'n newid braf iawn clywed y bu ganddo ran mewn rhywbeth cystal a'i fod yn helpu pobl eraill; mae'n dechrau tyfu i fyny ac rwy'n falch iawn o'r hyn mae'n ei wneud."

Rhiant Kenny, gwasanaeth Cyfle, Henllan

Galluogwyd rhieni ifanc o Bartneriaeth Heol Marlborough yng Nghasnewydd i fwynhau amser fel pobl ifanc tra bo'u plant yn cael profiadau gofal plant gwerthfawr.

Adroddodd gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth ifanc 'V-Linx' o'r gwasanaeth Cyswllt Teulu Sir Benfro fwy o hunan-barch a hyder i roi cynnig ar weithgareddau newydd a

"Ers i fy mhlant ddechrau mynychu'r sesiynau ar ôl yr ysgol, maent wedi magu hyder a dod allan o'u cragen i raddau helaeth."

rhiant, Canolfan Weithgareddau Springhills, Rhondda Cynon Taf

chyfarfod â phobl newydd.

Cynigiwyd cyngor i rieni a gofalwyr sy'n mynychu gwasanaeth Rhieni ar Waith Powys yn y Drenewydd yn ogystal â strategaethau i ymdopi ag ymddygiad eu plant; roedd 90% yn teimlo'n fwy hyderus a gwybodus am ymddygiad a datblygiad eu plant. Roeddent yn adrodd cymaint roedd eu perthynas â'u plant wedi gwella.

O'r 21 o bobl ifanc sy'n cael cymorth un ac

"Ni sylweddolais byth beth oedd yn digwydd i mi – dros y blynyddoedd roeddwn i'n meddwl mai dyna a oedd yn digwydd mewn perthynas – ni fyddaf yn gadael i rywun wneud hynny i mi byth eto!"

defnyddiwr gwasanaeth, Seraf, gwasanaeth Cymru gyfan

Mae David yn ymddangos yn llawer mwy pendant a phwyllog… mae'n gallu mynegi ei deimladau ac mae wedi dechrau dod i delerau â'r gamdriniaeth bersonol a ddioddefodd."

Gweithiwr Cymdeithasol gyda David, 13 oed, Taith, gwasanaeth Cymru gyfan

un gan Seraf, sy'n wasanaeth Cymru gyfan, roedd 15 yn cael llai o gysylltiad ag oedolion peryglus.

Mewn asesiad cychwynnol, roedd hunan-barch 32% o'r bobl ifanc a gyfeiriwyd at wasanaeth Taith yn is na'r cyfartaledd. Ar ôl ymyriad, syrthiodd y ffigur hwn i 9%. Yn yr un modd, mewn asesiad cychwynnol roedd unigrwydd emosiynol 21% o ddefnyddwyr gwasanaeth Taith yn

“Mae staff Barnardo’s yn broffesiynol ond mae’n llawer mwy personol. Maent yn fy ngweld i fel unigolyn, nid fel rhif claf.”

defnyddiwr gwasanaeth, Caterpillar, Partneriaeth Heol Marlborough, Caerdydd

uwch na’r cyfartaledd. Ar ôl ymyriad, syrthiodd y ffigur hwn i 12%, sef gwelliant sylweddol iawn arall.

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… fod yn ddiogel rhag niwed

Sefydlodd Partneriaeth Compass grŵp trais yn y cartref amlasiantaeth i bobl ifanc, sef Lleisiau Bychain. Dyfarnwyd cyllid i'r grŵp gan Taclo'r Tacle (Crime Stoppers) i greu a chyhoeddi poster ar drais yn y cartref i bobl ifanc yn ardal Wrecsam. Bu'r grŵp hefyd yn rhoi cyflwyniad mewn cynhadledd amlasiantaeth.

"Cefais arfau i gymryd rheolaeth dros unrhyw sefyllfa gyda fy mhlentyn. Mae wedi rhoi fy hyder yn ôl imi i fod yn rhiant da."

rhiant, Rhieni'n Rhannu Castell-nedd Port Talbot

Ers dechrau ymyriadau gyda gwasanaeth Teuluoedd sy'n Bwysig Sir y Fflint ym Mwcle, tynnwyd enwau dau o blant rhieni a gefnogir oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn y pen draw, gwnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol gau eu hachosion. Hefyd caewyd achosion 14 o bobl ifanc eraill yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hadnabod fel 'plant mewn angen'.

O'r menywod ifanc a gafodd gymorth grŵp ym Mhartneriaeth Heol Marlborough yng Nghaerdydd, nododd 70% eu bod bellach yn deall effaith negyddol trais ar eu perthnasoedd personol ac ar eu plant yn well.

"Roeddwn i mewn cryn drafferth a doedd gen i ddim ffrindiau ar ôl i aros gyda nhw. Cefais gymorth gan fy ngweithiwr BAYS i ddod o hyd i rywle diogel i aros a bu'n gweithio gyda mi drwy fy mhroblemau. Nawr rwy'n mynd yn ôl i'r coleg ym mis Medi."

Anna, Gwasanaeth Digartrefedd Pobl Ifanc BAYS, Abertawe

Yng ngwasanaeth Stryd Neville yng Nghaerdydd, bu Grŵp y Merched yn cyfranogi mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Barnardo's Cymru sef "Profiadau pobl ifanc o fwlio mewn perthynas â hunaniaeth a sut i'w ddatrys." Cynhyrchodd y merched eu DVD eu hunain "Pam fi?" i fynd gyda'r adroddiad a gyhoeddwyd. Adroddodd yr holl gyfranogwyr eu bod bellach yn gwybod mwy am y mater hwn a'u bod yn dyheu i ddysgu mwy.

"Hyfforddiant ardderchog ac addysgiadol – dylai hwn fod yn rhan o hyfforddiant gorfodol i bawb sy'n gweithio gyda phlant. Bu'n ddefnyddiol dros ben mynychu sesiwn hyfforddi ar bwnc y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod cyn lleied amdano."

Hyfforddai yn cael hyfforddiant Seraf ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant

Yn y Cylch Chwarae yng Nglyncoch yn Rhondda Cynon Taf, cafodd rhieni offer diogelwch drwy gynllun Diogelwch yn y Cartref yr awdurdod lleol. Bu deuddeg o blant rhwng wyth ac un ar ddeg oed yn mynychu cwrs hybu ymwybyddiaeth am dân a gynhaliwyd gan y Frigâd Dân leol. Buont yn adrodd wedyn eu bod yn fwy gwybodus ac ymwybodol o beryglon mewn cysylltiad â thân.

"Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod yn gallu cysylltu â fy ngweithiwr; rwy'n hoffi ein bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac nid yw'n fy siomi." "Rwy'n teimlo'n ddiogel – yn ddiogel iawn yma; rwy'n caru'r grŵp hwn, rwy'n caru'r gweithwyr, rwy'n caru, caru, caru'r cyfan!"

defnyddiwr gwasanaeth, Seraf, gwasanaeth Cymru gyfan

Cyflwynodd gwasanaeth Seraf hyfforddiant hybu ymwybyddiaeth am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Lefel 1 i fwy na 750 o weithwyr proffesiynol, a hyfforddiant sgiliau gwaith uniongyrchol Lefel 2 i fwy na 100 o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau. Dywedodd dros 90% o gyfranogwyr yn yr hyfforddiant eu bod bellach yn fwy ymwybodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn enwedig sut i adnabod plant a phobl ifanc mewn perygl, ac yn teimlo y gallent ymgorffori'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn eu gwaith i fynd i'r afael â'r camfanteisio hwn. Mae Gwasanaethau Plant mewn dwy ardal awdurdod lleol yn gweithredu'r arf Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (SERAF), er mwyn asesu a monitro camfanteisio'n rhywiol ar blant yn rheolaidd.

“Heb y gwasanaeth hwn, byddwn mewn cymaint o drafferth o hyd. Rwyf bellach yn cwblhau fy nghwrs prifysgol ac nid yw fy mab ar y Gofrestr Amddiffyn Plant rhagor.”

mam, Teuluoedd sy’n Bwysig Sir y Fflint, Bwcle

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… fywyd teuluol cadarnhaol

Mae rhieni o wasanaeth Amser Ni yng Ngwynedd yn adrodd yn ôl fod y gwasanaeth yn helpu pawb i gael eu hegni'n ôl a bod yr egwyl rhag gofalu yn gwella bywyd yn y cartref.

"Rwy'n rhan o'r teulu yma. Rwy'n hoffi chwarae gyda Jake a Molly, fy mrawd a chwaer maeth."

plentyn mewn lleoliad maeth, BCAFS, gwasanaeth Cymru gyfan

Cafodd plant a phobl ifanc o Wasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru Gyfan eu rhoi mewn teuluoedd sy'n gallu bodloni eu hanghenion cymhleth ac sydd wedi ymrwymo i ofalu amdanynt yn barhaol. Mewn adolygiadau 'plant sy'n derbyn gofal', cafwyd adborth cadarnhaol ar sefydlogrwydd y lleoliadau a chydnabuwyd manteision cael profiad o fywyd teuluol cadarnhaol.

Ar ôl paru'n ofalus a chefnogi trefniadau'r gofalwr, bu plant a phobl ifanc yng Nghysylltiadau Cymunedol Caerdydd a Bro Morgannwg yn ffurfio perthynas cadarnhaol â'u gofalwyr. Nododd cyfarfodydd adolygu y bu teuluoedd yn hapus iawn, ar y cyfan, â'r gwasanaethau a ddarparwyd a'r effaith gadarnhaol a gafodd y rhain.

"Mae rheolau, canmoliaeth gyson ac amser arbennig wedi arwain at lai o gwyno, mwy o annibyniaeth, llai o ddadlau a chartref hapusach."

rhiant, cwrs y Blynyddoedd Rhyfeddol, Caban Bach, Blaenau Ffestiniog Ffestiniog

Gyda Theuluoedd Trelái yng Nghaerdydd, dywedodd hyd at 90% o rieni a oedd yn cwblhau pob rhaglen eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i rianta'n dda ac adroddodd 75% o bobl ifanc a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth fod y sefyllfa wedi gwella gartref gyda'u teulu.

Cafodd 25 o deuluoedd gymorth grant yng Ngwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Merthyr. Cafodd y gwasanaeth afael ar werth £7,000 o grantiau i gyd er mwyn helpu i fodloni anghenion sylfaenol teuluoedd.

Bu Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot yn darparu cyrsiau rhianta i dadau yng Ngharchar Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.

"Mae'r Cyfarfod Grŵp Teulu yn gyfle i archwilio sefyllfa deuluol anodd ac emosiynol ac mae'n darparu amgylchedd priodol a chefnogol. Cafodd y Cyfarfod Grŵp Teulu ei hwyluso'n dda iawn ac fe baratowyd yn effeithiol ar ei gyfer. Byddwn yn bendant yn defnyddio'r gwasanaeth hwn eto; roedd yn brofiad cadarnhaol iawn gyda chanlyniadau cyraeddadwy cadarnhaol i'r teulu a gyfeiriwyd."

Gweithiwr Cymdeithasol awdurdod lleol yn atgyfeirio at wasanaeth Cyfarfod Grŵp Teulu Powys

Cynhaliwyd dau gwrs deuddydd i weithwyr rhianta proffesiynol; cynhaliwyd pedwar gweithdy Cyfarfod Grŵp Teulu hanner diwrnod ar gyfer atgyfeirwyr a myfyrwyr.

Roedd 17 o famau beichiog o wasanaeth Glyncoch yn Rhondda Cynon Taf yn gallu cael gofal cyn-geni yn eu cymuned leol, mewn lleoliad anfeddygol.

"Pan ddes i Gaerdydd gyntaf, nid oedd gen i lawer o hyder na gair o Saesneg. Bu'r gweithiwr prosiect yn rhoi cefnogaeth dda iawn i mi a fy merch. Gwnaethom ymuno â'r grŵp mam a phlant bach ac roedd y gweithiwr yn ymweld â ni gartref bob wythnos ac yn ein ffonio ddwywaith yr wythnos. Cawsom gymorth ganddi i gael budd-daliadau ac aeth â mi i weld cyfreithiwr. Mae ein hyder yn dda iawn nawr ac rwy'n diolch i Barnardo's."

defnyddiwr gwasanaeth, Stryd Neville, Caerdydd

"Tra bo Sam a Michael i ffwrdd mae'n rhoi amser amhrisiadwy inni ymlacio eto, gan wybod bod y bechgyn yn ddiogel, yn hapus ac nid ydynt ymhell i ffwrdd tra byddwn yn treulio amser o ansawdd gyda gweddill ein plant."

rhieni, Cyswllt Teulu Sir Benfro

Rydych chi'n fy ngweld i'n chwerthin
Yn ogoneddus
Ond tu ôl y drws
Mae'n stori arall
Gweithio, glanhau
Dim hwyl a sbri
Rhywbeth sy'n hollol ddieithr i chi

Allan â chi
Gyda'ch ffrindiau i gyd
Tra bydda i'n gwylio
O wahanol fyd
Sgrwbio, glanhau
Dim cyffro amdani
Ond efallai gofalu.

gofalwr ifanc, gwasanaeth Caerffili

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… berthyn i'w cymunedau a chyfrannu atynt

"Roeddwn i wrth fy modd yn gweithio gyda'r artist. Dysgais sut i ddefnyddio camera digidol a sut i wneud i'r lluniau edrych yn wahanol ar gyfrifiadur. Fe argraffon ni lawer o luniau a gosod y rhan fwyaf ohonynt yn y dderbynfa, gan gynnwys un ohonof yn sglefyrddio. Mae'n edrych yn wych."

Scott, Gwasanaeth Digartrefedd Pobl Ifanc BAYS, Abertawe

Bu tri o bobl ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Digartrefedd Pobl Ifanc a Llety â Chymorth BAYS yn gweithio gydag artist cymunedol i gynhyrchu murlun a gwaith celf ffotograffig ar thema Abertawe er mwyn trawsnewid derbynfa Partneriaeth BAYS yn rhywle mwy deniadol i bobl ifanc.

Bu Mark Jenkins, gofalwr ifanc 20 oed o wasanaeth Caerfyrddin yn Llanelli, yn hwyluso rhoi cyflwyniadau i'r gwasanaeth er mwyn ychwanegu safbwynt gofalwyr ifanc. Cydnabuwyd llwyddiant Mark yn trosglwyddo neges y gofalwyr ifanc pan gafodd Wobr Uchel Siryf.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwasanaethau Sir y Fflint wedi cefnogi 22 o blant i ddefnyddio cynlluniau chwarae yn eu cymuned, 35 o bobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol, 26 o bobl ifanc i gymryd rhan yn y Cynlluniau Dug Caeredin, pedwar oedolyn a deg o bobl ifanc i gael addysg bellach ac wyth teulu i ddefnyddio Grwpiau Rhieni a Phlant Bach yn eu cymuned.

"Cyflwynwyd Emily, gyda chymorth ei gweithiwr cefnogi Bev, i ddosbarth dawns y mae'n gallu mynd iddo bellach ar ei phen ei hun; mae Emily'n ferch wahanol ers bod gyda Bev. Mae wedi cyflawni beth roeddem ei eisiau ac wedi setlo mewn grŵp dawnsio."

Jason tad Emily, gwasanaeth Blaenau Gwent, Glyn Ebwy

"Mae'r gwasanaeth wedi helpu datblygiad cymdeithasol a chyffredinol fy merch yn fawr."

rhiant, Cyswllt Teulu Sir Gaerfyrddin

Drwy roi cymorth iaith yng ngwasanaeth Stryd Neville yng Nghaerdydd, cefnogwyd teuluoedd i ymgymryd ag ystod eang o ddarpariaeth, gan gynnwys rhaglenni rhianta, gweithdai teulu a sesiynau gwerthuso. Mae sesiynau ymarferol ar 'ddiogelwch yn y cartref', cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelwch personol i gyd wedi'u cyflwyno gyda chymorth iaith ar gael.

"Diolch o waelod calon am roi'r cyfle imi gymryd rhan."

Defnyddiwr gwasanaeth, Caterpillar, Partneriaeth Heol Marlborough, Caerdydd

Yn ddiweddar, bu pobl ifanc yng ngwasanaeth Caterpillar yng Nghaerdydd yn cynllunio pecyn hyfforddi i'w gyflwyno i oedolion proffesiynol sy'n gweithio ym maes rheoli hunan-niweidio. Buont yn cymryd rhan hefyd mewn ystod eang o ymgyrchoedd a phrosiectau ar y cyfryngau cenedlaethol a lleol, gan fagu hyder a hunan-barch wrth ddatblygu sgiliau cyfryngau a chyflwyno.

Ym Mhartneriaeth Castell-nedd Port Talbot, mae dau berson ifanc bellach yn wirfoddolwyr ac wedi cael hyfforddiant a chymorth. Bu pum rhiant yn cyfrannu at wahanol elfennau o waith yr awdurdod lleol.

Yng Nghylch Chwarae Glyncoch yn Rhondda Cynon Taf, cwblhaodd un cyn-ddefnyddiwr gwasanaeth CACHE lefel 2 mewn Gwaith Chwarae.

Galluogwyd defnyddwyr gwasanaeth Mae Plant yn Bwysig Abertawe i gymryd rhan mewn proses ymgynghori a sefydlwyd system disgyblion cyswllt o ganlyniad. Nododd yr holl ddisgyblion cyswllt eu bod wedi mwynhau'r rôl hon a'u bod yn teimlo'n falch o gael eu dewis. Roedd 100% yn bresennol ar ddiwrnodau hyfforddi disgyblion cyswllt.

“Mae’r bobl sydd o’m hamgylch wedi dod o gartref da, wedi mynd drwy’r coleg ac maent yn eistedd wrth fy ymyl i, sydd wedi cael llwyth o broblemau ond sydd yn yr un lle â nhw beth bynnag. Rwyf eisiau gweithio gyda phobl sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol a rhoi’n ôl i’r gymuned yr hyn a gymerais allan ohoni.”

Richard, 27, cyn-ddefnyddiwr gwasanaeth, Compass, Wrecsam

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i… lais cymdeithasol ac economaidd yn y gymdeithas

Bu pobl ifanc o Bartneriaeth BAYS yn cymryd rhan mewn dylunio gwefan i bobl sy'n gadael gofal yn Abertawe. Buont hefyd yn cymryd rhan mewn lansiad i gyhoeddi'r adnodd newydd hwn ac yn siarad â gweithwyr proffesiynol am eu profiadau. Wrth wneud hynny, buont yn datblygu sgiliau cyflwyno, siarad cyhoeddus a TG.

"… ac enillydd y wobr am Gyfranogiad a Dinasyddiaeth yw CBS Blaenau Gwent."

Brian Gibbons, Aelod Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am Lywodraeth Leol

Yn ein gwasanaeth Blaenau Gwent yng Nglyn Ebwy, bu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cyfrannu'n sylweddol at y cais Gwobr Rhagoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer Cyfranogiad a Dinasyddiaeth.

Mynychodd 27 o ofalwyr ifanc o wasanaeth Caerfyrddin sioe Nadolig Fyw Blue Peter a oedd yn hyrwyddo'r apêl Disk Drive, yn codi arian i wasanaethau gofalwyr ifanc ac yn hyrwyddo eu hanghenion. Adroddodd y gofalwyr ifanc y cawsant brofiad bythgofiadwy a bendigedig yn y digwyddiad Blue Peter ac roedd adborth gan deuluoedd yn gadarnhaol iawn.

Bu pobl ifanc o wasanaeth Cyfle yn Henllan yn eistedd ar y Grŵp Cyfeirio Pobl Ifanc a oedd yn gweithio gyda Phwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cymru ac yn helpu i ddylanwadu ar ei adroddiad a wnaeth 40 o argymhellion i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl yng Nghymru.

Bu pobl ifanc a staff yng ngwasanaeth Caterpillar yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn gwaith hybu ymwybyddiaeth drwy ymchwil, ymgynghori a nifer o ymgyrchoedd. Mae adborth o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth eraill yn dangos bod y gwaith wedi cael effaith gadarnhaol a chyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am faterion iechyd meddwl.

"Ni wn o gwbl beth fyddwn i'n ei wneud heb Barnardo's."

rhiant, Mae Plant yn Bwysig Abertawe

"Rydw i eisiau gwirfoddoli oherwydd cwrs yr hoffwn ei wneud mewn lles cymdeithasol a hefyd gan fy mod i'n arfer cael cymorth gan Heol Marlborough. Newidiodd fy mywyd yn llwyr drwy fynychu'r prosiect cefnogi pobl ifanc, ac roeddwn i'n llawer mwy hyderus o ganlyniad. Roedd Cydlynydd y Grŵp yn ysbrydoliaeth imi, a gwnaeth imi eisiau gwneud y math hwn o waith."

person ifanc, Partneriaeth Heol Marlborough, Caerdydd

Hyfforddwyd rhieni a phlant o Bartneriaeth Castell-nedd Port Talbot i gymryd rhan mewn cyfweliadau a gwneud cyflwyniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig prifysgol a grwpiau proffesiynol a buont hefyd yn cymryd rhan mewn cais llwyddiannus am dendr.

Yn ein gwasanaethau ym Mhowys, cyfrannodd 45 o rieni a gofalwyr at yr ymgynghoriad Cynllun Plant Sengl a chyflawnodd 20 o rieni Ddyfarniad Lefel 2 Rhwydwaith Cenedlaethol y Coleg Agored – y Blynyddoedd Rhyfeddol.

Bu 58 o blant o'r Gwasanaeth Teulu Gwledig ar Ynys Môn yn cefnogi Taith Gerdded Fawr Barnardo's ac yn helpu i godi mwy na £500. Codwyd £480 arall gan wasanaeth Caban Bach ym Mlaenau Ffestiniog, drwy nawdd.

"Dros y blynyddoedd, mae'r Gwasanaeth Teulu Gwledig wedi chwarae rhan arweiniol yng nghynlluniau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yma ar Ynys Môn. Mae'r her yn wahanol erbyn hyn, a bydd y Bartneriaeth yn edrych at y GTG i arwain cynlluniau i atgyfnerthu cydweithio ac i wella gwasanaethau a ddarperir i blant a'u teuluoedd."

Gareth Hughes, Rheolwr Fframwaith Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Ynys Môn

“Bu Iolo’n gallu rhoi cynnig ar lawer o weithgareddau a phrofiadau newydd yn ystod ei egwyliau byr a fydd yn gymorth iddo fod yn fwy annibynnol yn y dyfodol.”

Tad Iolo, gwasanaeth Amser Ni, Caernarfon

Polisi, ymchwil a datblygu

Mae Uned Polisi, Ymchwil a Datblygu Barnardo's Cymru yn gweithredu ar nifer o lefelau ac mewn ffyrdd amrywiol.

Rydym yn dylanwadu ar **bolisi** drwy ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar fywydau ein plant a phobl ifanc fwyaf diamddiffyn, fel y rheini ag anghenion iechyd meddwl, y rheini mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol a'r rheini sy'n byw mewn tlodi. Er enghraifft, rydym yn llunio adroddiadau, yn siarad mewn cynadleddau, yn rhoi sesiynau gwybodaeth i wleidyddion, yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau Cynlluniad a Llywodraeth ac yn cyfarfod â Gweinidogion a gweision sifil arweiniol.

Rydym yn llunio dogfennau **ymchwil** o ansawdd uchel sy'n amlygu meysydd newydd o bryder neu sy'n gwerthuso effeithiolrwydd ffyrdd presennol neu newydd o weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Eleni er enghraifft, adroddwyd am brofiadau pobl ifanc o fwlio hiliol a buom yn cwmpasu pa mor gyffredin oedd camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi ac yn annog gwaith i **ddatblygu** gwasanaethau newydd ac arloesol drwy archwilio ffyrdd newydd o weithio, casglu tystiolaeth gadarnhaol o'r hyn sy'n gweithio a drafftio a chyflwyno cynigion Barnardo's Cymru i lifoedd cyllid perthnasol. Eleni rydym wedi llwyddo i gefnogi datblygiad gwaith newydd i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau gan rieni, ei effaith ar blant mewn teuluoedd ac i ddarparu rhaglenni rhianta i ddynion sydd dan glo yng ngharchardai Cymru.

Rydym yn hyrwyddo ac yn hwyluso **cyfranogiad** plant a phobl ifanc ar draws gwaith yr Uned a'r sefydliad ehangach yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl ifanc i ddylanwadu ar gynllun ein gwasanaethau a'r amgylcheddau rydym yn eu cynnal ynddynt, gan eu cynnwys wrth recriwtio a dewis staff a'u helpu i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y rhai sy'n llunio polisïau, fel gwleidyddion a gweision sifil. Eleni, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori helaeth gyda phlant a phobl ifanc yn rhan o'r adolygiad mawr o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ledled Cymru.

Gellir cysylltu â'n Huned Polisi, Ymchwil a Datblygu ar 01639 620945



Ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r cyfryngau

Dau brif linyn ein gwaith yn 2007-2008 oedd adfywio delwedd Barnardo's drwy lansio brand **Credwch mewn Plant** Barnardo's, a hyrwyddo a phroffilio delwedd gyfoes o Barnardo's Cymru.

Cyflawnwyd yr ail beth yn amlycaf yn y gyfres ddogfen **Somebody's Child**, a ddangoswyd ar BBC Wales; yn yr apêl **Blue Peter** a ddarlledwyd ar rwydwaith BBC1; ac yn yr atodiad am ein gwaith yng Ngogledd Cymru a argraffwyd ac a ddosbarthwyd inni gan NWN Media Ltd.

Rhoes cyfres **Somebody's Child** gyfle heb ei ail inni newid y ffordd y mae'r cyhoedd yn gweld Barnardo's, gan herio'r ddelwedd 'plant amddifaid' i greu dealltwriaeth fwy realistig o natur bellgyrhaeddol ein gwaith yn yr oes fodern. Roedd y gyfres yn cynnwys cyfarfodydd grŵp teulu, maethu egwyliau byr, gofalwyr ifanc, pobl ifanc ddigartref a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.

Adopt different views on kids

Helping children across Wales

Y ffigurau gwylio cyfartalog ar draws y gyfres o raglenni oedd 114,000. Cawsom sylw pellach hefyd mewn erthyglau papur newydd cysylltiedig â'r rhaglen ddogfen a gyrhaeddodd 100,000 o ddarllenwyr pellach.

Caring girls appear on top TV show

Yn ystod y cyfnod ffilmio **Somebody's Child**, buom hefyd yn cefnogi apêl genedlaethol **Blue Peter** ar ran Barnardo's. Bu gofalwyr ifanc o Gaerffili a Sir y Fflint yn cymryd rhan mewn nifer o sesiynau ffilmio ac fe'u gwelwyd yn ystod yr apêl.

Drwy'r cyfle i gynhyrchu atodiad papur newydd a ddosbarthir gan bapurau newydd NWN Media Ltd ar draws ei ardal gylchredeg, cawsom gyfle gwych i gyrraedd 90,000 o ddarllenwyr yng Ngogledd Cymru. Cafodd pobl ifanc o Sir y Fflint a Wrecsam rydym yn gweithio gyda hwy brofiad hefyd o gymryd rhan yn y prosiect.

Ymhlith **uchafbwyntiau eraill yn y cyfryngau** oedd:

Pledge to halve child poverty 'needs an extra £3.8bn'

- cefnogaeth i'n gweithgarwch dylanwadu yn amlygu tlodi plant yng Nghymru gyda lansio adroddiad **'Nid yw'n digwydd yma'** ym mis Mai
- cyflawni proffil uchel i'n gwaith maethu egwyl fer gan gael sylw i lansiad DVD recriwtio Rhannu'r Gofal yn y Senedd ym mis Awst
- nifer o lansiadau prosiect yng Nghaban Bach ym Mlaenau Ffestiniog ac yng ngwasanaeth Teuluoedd sy'n Bwysig Sir y Fflint
- cerrig milltir arwyddocaol fel 15fed pen-blwydd gwasanaeth Teuluoedd Ifanc Caerdydd a dathliadau 60ain pen-blwydd Barnardo's fel asiantaeth faethu
- digwyddiadau codi arian gan gynnwys y Daith Feicio, Hanner Marathon Caerdydd a'r Daith Gerdded Fawr i rieni a phlant bach.

Ein pobl – staff

"'...dod i weithio yn Seraf oedd fy mhrofiad cyntaf o weithio mewn gwasanaeth sy'n rhan o Barnardo's Cymru a phob dydd rwy'n cael fy nharo gan yr ymrwymiad a'r angerdd sydd gan y tîm at y gwaith a wnânt ... mae'n fraint fawr ac rwy'n teimlo'n falch o fod yn rhan ohono!"

aelod tîm

Mae ein staff, gwirfoddolwyr a gofalwyr yn gwbl allweddol i ansawdd, effeithiolrwydd a diogelwch ein gwaith. Fel sefydliad, rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau ein bod yn recriwtio, yn cynefino, yn hyfforddi ac yn cefnogi'r bobl gywir yn briodol i sicrhau y caiff safonau eu bodloni.

Yn unol â thwf cyflym parhaus ein gwaith ledled Cymru, tyfodd ein niferoedd staff dros y flwyddyn o 670 i 770 – cynnydd o 15%.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi

- cyflawni achrediad llwyddiannus i'r dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl
- cael ailgymeradwyaeth Barnardo's Cymru fel canolfan NVQ ar gyfer Lefel 4 (Rheoli)
- cyflwyno 127 o gyrsiau hyfforddi yn uniongyrchol i'n pobl ar bynciau allweddol fel Diogelu Plant, Iechyd a Diogelwch, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Rheoli Salwch ac Absenoldeb
- gweithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu hyfforddiant ynghylch anabledd yn benodol
- cyflwyno NVQ Lefel 2 (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn gychwynnol ar gyfer staff gofal cartref yn unol â gofynion AGGCC
- yn unol â'n twf parhaus fel sefydliad yng Nghymru, hysbysebu bron 250 o swyddi a phrosesu dros 500 o wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

"Gwelwyd plant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion gyda'r pwyslais i raddau helaeth ar barchu ei gilydd... Mae'r staff yn gallu rheoli amrywiaeth eang o ymddygiadau plant mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu lles a'u datblygiad ... Caiff amgylchedd ei greu sy'n annog ymddygiad derbyniol."

Adroddiad arolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), gwasanaeth Stryd Neville, Awst 2007

Am fwy o wybodaeth am gyflogaeth â Barnardo's Cymru ffoniwch 029 2049 3387 neu ewch i www.barnardos.org.uk

Ein pobl – gwirfoddolwyr

Yn yr un modd â'n staffio, gwnaeth niferoedd y gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i'n helpu yn ein gwaith dyfu'n sylweddol hefyd dros y flwyddyn – o 675 i 755 – cynnydd o 12%. Mae pobl yn parhau i gyflwyno eu hunain i wirfoddoli yn ein Gwasanaethau Plant, yn ein canghennau Adwerthu ac ein gweithgareddau Codi Arian.

"Mae gwirfoddoli wedi cynyddu fy sgiliau hyder wrth ryngweithio a chyfarfod â phobl newydd; mae wedi rhoi mwy o amynedd imi ac rwy'n deall anabledd yn well."

Gwirfoddolwr V-Linx, Cyswllt Teulu Sir Benfro

Ymhlith niferoedd cynyddol cyffredinol y bobl sy'n gwirfoddoli, roedd rhai lefelau boddhaol iawn o gynnydd o rai grwpiau a dargedir yn y boblogaeth. Cynyddodd niferoedd ein gwirfoddolwyr o dan 25 oed o 26 o bobl y flwyddyn flaenorol i 108 erbyn diwedd y flwyddyn, cynyddodd niferoedd ein gwirfoddolwyr anabl 24% a gwnaeth niferoedd ein gwirfoddolwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig dreblu bron - bu'n flwyddyn dda am wirfoddoli yn Barnardo's Cymru!

Coronwyd y flwyddyn wirfoddoli pan lwyddodd gwirfoddolwr o'n gwasanaeth Rhieni'n Rhannu yng Nghastell-nedd Port Talbot i ennill gwobr wirfoddoli DU gyfan Marsh Trust.

Diolch i'n holl staff a gwirfoddolwyr am eu hymdrechion parhaus i'n gwneud yn fudiad pwysig iawn o ran cyflwyno gwasanaethau i'r plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

"Mae cymryd rhan fel gwirfoddolwyr yn rhoi ein hunaniaeth yn ôl inni. Mae llawer ohonom yn teimlo nad "dim ond rhieni" mohonom rhagor. Rydym wedi datblygu diddordebau eraill, sgiliau eraill, ffrindiau eraill. Mae'n debyg bod cymryd rhan mewn un peth drwy wirfoddoli yn agor y drws i lawer o bethau eraill."

Helen Culpan, gwirfoddolwraig, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot

"Hoffwn ddweud DIOLCH YN FAWR i'n holl wirfoddolwyr am eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd a'u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eich cefnogaeth yn amhrisiadwy. Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr mor ddynamig wedi cael effaith wrth gynllunio gwasanaeth i ddatblygu rolau gwirfoddol pellach yn y gwasanaeth: mae'n amser cyffrous!"

Fran Parry, Cydlynydd Gwirfoddolwyr, Gwasanaeth Teulu Gwledig, Ynys Môn ac Amser Ni, Gwynedd

Am fwy o wybodaeth am wirfoddoli gyda Barnardo's Cymru ffoniwch 029 2049 3387 neu ewch i www.barnardos.org.uk

Codi Arian

Daeth rhoddion allweddol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys: rhoddion gan unigolion, rhoddion gan gwmnïau, nawdd, codi arian gan wirfoddolwyr, rhoi drwy'r gyflogres, rhoddion arian cyfatebol gan gyflogwyr, digwyddiadau her a gwaith codi arian gan ysgolion a cholegau. Roedd cryn dipyn o fenter ac arloesedd yn perthyn i'r math o godi arian a welwyd gan wirfoddolwyr sy'n rhan o'n Grwpiau Cynorthwywyr Barnardo's, gan gynhyrchu dros £120,000 o gyllid drwy ddigwyddiadau lu – rhai cyfarwydd a rhai newydd. Ymhlith y partneriaid corfforaethol a roes dros £5,000 yng Nghymru oedd Airbus, British Telecom, Barclays Bank, Royal Mail Group a Gwesty'r Village yn Abertawe.

Roedd cyllid net a godwyd wedi cynyddu 16% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond byddwn yn parhau i ymdrechu i gael mwy i gefnogi ein gwaith yng Nghymru. Diolchwn yn fawr iawn i'r holl unigolion a sefydliadau hynny sydd wedi cyfrannu at godi arian i gefnogi ein gwaith; gwerthfawrogir eich cefnogaeth.

Un uchafbwynt eleni oedd y gefnogaeth a gawsom gan blant ysgol yn codi arian; cynyddodd cyllid o ysgolion 64% ers y flwyddyn flaenorol, gan gynhyrchu £70,000. Un llwyddiant mawr arall oedd Hanner Marathon Caerdydd, a drefnwyd gan Barnardo's Cymru, sef y ras fwyaf yng Nghymru, gan ddenu dros 7,500 o redwyr.

Er y bu'n flwyddyn gadarnhaol o ran cynyddu cyllid, nid yw ein gwaith byth ar ben. Rydym yn ymwybodol iawn o blant, pobl ifanc a theuluoedd eraill y gallem eu helpu pe byddai gennym fwy o gyllid. Byddwn yn parhau, fel arfer, i ddatblygu ein llifoedd codi arian ymhellach ac yn anelu'n uchel ar gyfer y flwyddyn nesaf!

A allwch helpu i gefnogi gwaith Barnardo's Cymru drwy wirfoddoli, etifeddiaeth, rhoddion unigol, rhoddion corfforaethol, cymryd rhan mewn digwyddiadau neu godi nawdd ar gyfer digwyddiadau? Am fwy o wybodaeth am sut y gallwch gefnogi Barnardo's Cymru ewch i www.barnardos.org.uk/wales a chliciwch ar "Codi arian" neu ffoniwch 029 2049 3387

Gwariant mewn Gwasanaethau Plant 2007-2008



Gwasanaethau plant

Ynys Môn

1. Gwasanaeth Teulu Gwledig Barnardo's
Isgraig
Lon Newydd, Llangefni
Ynys Mon (Anglesey) LL77 7PT
Rhif ffôn: 01248 751194
Ffacs: 01248 751218
E-bost: ruralfamilyservice@barnardos.org.uk

Gwynedd

2. Caban Bach Barnardo's
Rhes Meirion, Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3AU
Rhif ffôn: 01766 832546
Ffacs: 01766 832547
E-bost: caban.bach@barnardos.org.uk

3. Gwasanaeth Amser Ni Barnardo's
14 Stryd Fawr, Caernarfon
Gwynedd LL55 1RN
Rhif ffôn: 01286 675847
Ffacs: 01286 677269
E-bost: amserni@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/amserni

Conwy/Sir Ddinbych

4. Cyfle Barnardo's
Canolfan Henllan, Henllan
ger Dinbych, Sir Ddinbych LL16 5YA
Rhif ffôn: 01745 817216
Ffacs: 01745 817521
E-bost: cyfle@barnardos.org.uk

Sir y Fflint

5. Gwasanaethau Sir y Fflint Barnardo's: Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint
Canolfan Ieuenctid a Chymuned Penarlâg
Groomscroft, Penarlâg
Sir y Fflint CH5 3EL
Rhif ffôn: 01244 539928
Ffacs: 01244 539495
E-bost: flintshire.youngcarers@barnardos.org.uk

Teuluoedd sy'n Bwysig Sir y Fflint
The Old Baths, Ffordd yr Wyddgrug
Bwcle, Sir y Fflint CH7 2JB
Rhif ffôn/Ffacs: 01244 551246
E-bost: familiesmatter@barnardos.org.uk

Wrecsam

6. Partneriaeth Compass Barnardo's: Cyngor a Llety
Bryn Hyfryd
2 Heol Grosvenor
Wrecsam LL11 1ER
Rhif ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compass@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/compass

Cymorth i Bobl sy'n Gadael Gofal
Bryn Hyfryd
2 Heol Grosvenor
Wrecsam LL11 1ER
Rhif ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compass@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/compass

Tenantiaeth a Chymorth i Deuluoedd
Bryn Hyfryd
2 Heol Grosvenor
Wrecsam LL11 1ER
Rhif ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compass@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/compass

Powys

7a. Rhieni ar Waith a Chyfarfodydd Grŵp Teulu Barnardo's: Rhieni ar Waith
Ynys-y-Plant, Plantation Lane
Y Drenewydd, Powys SY16 1JH
Rhif ffôn: 01686 617444
Ffacs: 01686 617440
E-bost: parent.works@barnardos.org.uk

Cyfarfodydd Grŵp Teulu
Uned 6, Parc Menter St Giles
Y Drenewydd, Powys SY16 3AJ
Rhif ffôn: 01686 622083
Ffacs: 01686 624122

7b. Gwasanaeth Cymorth Dwys Amlasiantaeth Barnardo's (BMISS)
Adeilad y Farchnadfa, Temple Street
Llandrindod, Powys LD1 5DL
Rhif ffôn: 01597 829664
Ffacs: 01597 829668
E-bost: bmiss@barnardos.org.uk

Sir Benfro

8. Cyswllt Teulu Sir Benfro Barnardo's
3-5 Bush Street, Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6XB
Rhif ffôn: 01646 687064
Ffacs: 01646 683033
E-bost: pembroke.dock@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/familylinkpembrokeshire

Sir Gaerfyrddin

9. Gwasanaethau Sir Gaerfyrddin Barnardo's: Cyswllt Teulu Sir Gaerfyrddin
33 Stryd Thomas, Llanelli
Sir Gaerfyrddin SA15 3JE
Rhif ffôn: 01554 775232
Ffacs: 01554 777991
E-bost: carmarthenshire.services@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/carmarthenshirefamilylinks

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin
33 Stryd Thomas, Llanelli
Sir Gaerfyrddin SA15 3JE
Rhif ffôn: 01554 775232
Ffacs: 01554 777991
E-bost: carmarthenshire.services@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/carmarthenshireyoungcarers

Abertawe

10. Mae Plant yn Bwysig Abertawe Barnardo's
13-15 Heol Cadifor, Penlan
Abertawe SA5 9AF
Rhif ffôn: 01792 797289
Ffacs: 01792 797293
E-bost: swansea.cm@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/swanseachildrenmatter

11. Partneriaeth BAYS Barnardo's: Gadael Gofal
32-36 Stryd Fawr, Abertawe SA1 1LG
Rhif ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Llety â Chymorth
32-36 Stryd Fawr, Abertawe SA1 1LG
Rhif ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Digartrefedd Pobl Ifanc
32-36 Stryd Fawr,
Abertawe SA1 1LG
Rhif ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Castell-nedd Port Talbot

12. Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Barnardo's: Rhieni'n Rhannu
19 Heol Llundain, Castell-nedd,
Castell-nedd Port Talbot SA11 1LF
Rhif ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost:
neathporttalbotparentingmattersservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/parentingmattersnpt

CHiP
19 Heol Llundain, Castell-nedd
Castell-nedd Port Talbot SA11 1LF
Rhif ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost:
neathporttalbotparentingmattersservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/parentingmattersnpt

Cynnwys Teuluoedd
19 Heol Llundain, Castell-nedd
Castell-nedd Port Talbot SA11 1LF
Rhif ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost:
neathporttalbotparentingmattersservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/parentingmattersnpt

Pen-y-bont ar Ogwr

13. Gwasanaeth Taith Barnardo's (Cymru gyfan)
Davian House
Ystâd Ddiwydiannol Fferm y Pentref
Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6BJ
Rhif ffôn: 01656 749235
Ffacs: 01656 740039
E-bost: taith.service@barnardos.org.uk

Bro Morgannwg

14b. Cysylltiadau Cymunedol Barnardo's
Uned 1, 58-62 Cowbridge Court
Heol Gwenfo
Caerdydd CF5 5BS
Rhif ffôn: 029 2057 1910
Ffacs: 029 2056 9352
E-bost: community.links@barnardos.org.uk

Caerdydd

14b. Cysylltiadau Cymunedol Barnardo's
Uned 1, 58-62 Cowbridge Court
Heol Gwenfo
Caerdydd CF5 5BS
Rhif ffôn: 029 2057 1910
Ffacs: 029 2056 9352
E-bost: community.links@barnardos.org.uk

15. Gwasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru (BCAFS – Cymru gyfan)
3 Raleigh Walk, Brigantine Place
Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4LN
Rhif ffôn: 029 20436200
Ffacs: 029 20436201
E-bost: cymru.derwen@barnardos.org.uk
Gwe:www.barnardos.org.uk/cymruadoptionandfostering

Gwasanaethau plant

16. Teuluoedd Treláі Barnardo's
Canolfan Deulu Treláі, 87 Grand Avenue
Treláі, Caerdydd CF5 4LE
Rhif ffôn: 029 20577074
Ffacs: 029 20577080
E-bost: ely.family@barnardos.co.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/elyfamilies

17. Stryd Neville Barnardo's
7a Stryd Neville, Glan yr Afon
Caerdydd CF11 6LP
Rhif ffôn: 029 2022 9585
Ffacs: 029 2037 3470
E-bost: nevillestreet.service@barnardos.org.uk

18. Barnardo's Seraf (Cymru gyfan)
46 Heol Marlborough, y Rhath
Caerdydd CF23 5BX
Rhif ffôn: 029 2049 1743
Ffacs: 029 2049 9684
E-bost: SerafService@barnardos.org.uk

19a. Partneriaeth Heol Marlborough Barnardo's:
Teuluoedd Ifanc Caerdydd
46 Heol Marlborough, y Rhath
Caerdydd CF23 5BX
Rhif ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk
marlboroughroad

Caterpillar
46 Heol Marlborough, y Rhath
Caerdydd CF23 5BX
Rhif ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk
marlboroughroad

Tai â Chymorth i Bobl Ifanc Sengl
46 Heol Marlborough, y Rhath
Caerdydd CF23 5BX
Rhif ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk
marlboroughroad

Rhondda Cynon Taf

Partneriaeth Rhondda Cynon Taf Barnardo's:
20. Cylch Chwarae Springhills a Glyncoch
58/60 Garth Avenue, Glyncoch
Ponytpridd, Rhondda Cynon Taf CF37 3AA
Rhif ffôn: 01443 405805
Ffacs: 01443 405805
E-bost: springhills.centre@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/
springhillscentre

21. Cymorth Dwys i Deuluoedd
Grange Terrace, Llwynypia, Tonypandy,
Rhondda Cynon Taf CF40 2HT
Rhif ffôn: 01443 440846
Ffacs: 01443 430706
E-bost: intensivefamilysupport@
barnardos.org.uk

22. Drws Agored
21 Stryd Morgan, Pontypridd
Rhondda Cynon Taf CF37 2DS
Rhif ffôn: 01443 486645
Ffacs: 01443 405285
E-bost: rctopendoorservice@
barnardos.org.uk

Merthyr Tudful

23. Partneriaeth Merthyr Barnardo's: Gwasanaeth 16+
56 Stryd Fawr, Pontmorlais
Merthyr Tudful CF47 8UN
Rhif ffôn: 01685 379502
Ffacs: 01685 377258
E-bost: merthyr.partnership@
barnardos.org.uk

Gofalwyr Ifanc
56 Stryd Fawr, Pontmorlais
Merthyr Tudful CF47 8UN
Rhif ffôn: 01685 382422
Ffacs: 01685 377258
E-bost: merthyr.partnership@
barnardos.org.uk

Blynyddoedd Cynnar a'r Gymuned
Portacabin 16 Ysgol Goetre, Rowan Way,
Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful
E-bost: merthyr.partnership@
barnardos.org.uk

Dechrau'n Deg
Adeilad Ysgol Sul Park Baptist
10th Avenue, Galon Uchaf
Merthyr Tudful CF47 9TG
Rhif ffôn: 01685 371993
E-bost: merthyr.partnership@
barnardos.org.uk

Cymorth i Deuluoedd
Ael-y-Bryn, Ystâd y Gurnos
Merthyr Tudful CF47 9AU
Rhif ffôn: 01685 387936
E-bost: merthyr.partnership@
barnardos.org.uk

Caerffili

24. Gwasanaethau Caerffili: Mentora a Chyfeillio Caerffili Barnardo's
59 Commercial Street
Risga NP11 6AW
Rhif ffôn: 01633 612712
Ffacs: 01633 615924
E-bost: caerservices@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/
caerphillymentoringservice

Gofalwyr Ifanc Caerffili Barnardo's
59 Commercial Street
Risga NP11 6AW
Rhif ffôn: 01633 612712
Ffacs: 01633 615924
E-bost: caerservices@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/
caerphillyyoungcarers

Blaenau Gwent

25. Gwasanaeth Blaenau Gwent Barnardo's
Swyddfeydd y Llawr Gwaelod,
Neuadd y Farchnad
Bethcar Street, Glyn Ebwy NP23 6HN
Rhif ffôn: 01495 307950
Ffacs: 01495 352941
E-bost: blaenaugwentcommunitylinksservice
@barnardos.org.uk

Torfaen

26. Teuluoedd yn Gyntaf Torfaen Barnardo's
Unedau 2 a 3, Victoria House
Ystâd Ddiwydiannol Gilchrist Thomas,
Blaenafon, Torfaen NP4 9RL
Rhif ffôn: 01495 791422
Ffacs: 01495 792814
E-bost: shon.devey@barnardos.org.uk

Casnewydd

19b. Partneriaeth Heol Marlborough Barnardo's:
Teuluoedd Ifanc Casnewydd
23 Heol Caerleon
Casnewydd NP19 7BU
Rhif ffôn: 01633 251192
Ffacs: 01633 251193
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/
marlboroughroad

Out There Casnewydd
23 Heol Caerleon, Casnewydd NP19 7BU
Rhif ffôn: 01633 251192
Ffacs: 01633 251193
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwe: www.barnardos.org.uk/
marlboroughroad

Swyddfeydd Barnardo's Cymru

Swyddfa Genedlaethol Barnardo's Cymru
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd
CF24 5TD

Ffôn: 029 2049 3387
Ffacs: 029 2048 9802
E-bost: cym.national@barnardos.org.uk

Swyddfa De Orllewin Cymru
Llawr 1af
4a Stryd y Frenhines
Castell-nedd
SA11 1DL

Ffôn: 01639 620945
Ffacs: 01639 620941

Swyddfa Gogledd Cymru
21 Ffordd Wynnstay
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8NB

Ffôn: 01492 532756
Ffacs: 01492 535043

Cyfeiriadau siopau adwerthu

Aberdâr
33 Commercial Street Aberdâr
CF44 7RW
01685 878990

Siop Lyfrau Aberdâr
49a Commercial Street
Aberdâr
CF44 7RW
01685 378489

Abergele
9b Stryd y Farchnad
Abergele
LL22 7AG
01745 826487

Y Fenni
6 Cross Street
Y Fenni
NP7 5EH
01873 856074

Aberystwyth
18 Rhodfa'r Gogledd
Aberystwyth
SY23 2NF
01970 625352

Bangor
298 Stryd Fawr
Bangor
LL57 1UL
01248 362380

Bargoed
59 Hanbury Road
Bargoed
CF81 8QX
01443 837136

Coed-duon
86 Stryd Fawr
Coed-duon
NP12 1AE
01495 229100

Brynmawr
38 Beaufort Street
Brynmawr
NP23 4AB
01495 315447

Caernarfon
42 Stryd Llyn
Caernarfon
LL55 2AB
01286 677625

Caerdydd
103 Albany Road
Caerdydd
CF24 3LP
029 2048 8513

Aberteifi
2/3 Stryd y Priordy
Aberteifi
SA43 1BU
01239 612159

Caerfyrddin
31 Blue Street
Caerfyrddin
SA31 3LE
01267 234260

Bae Colwyn
40 Ffordd yr Orsaf
Bae Colwyn
LL29 8BU
01492 534795

Glyn Ebwy
Hen Neuadd y Farchnad
44 Bethcar Street
Glyn Ebwy
NP23 6HG
01495 354526

Hwlffordd
34 Stryd Fawr
Hwlffordd
SA61 2DA
01437 766727

Llandudno
15 Stryd Mostyn
Llandudno
LL30 2NL
01492 875972

Llanelli
11 Stepney Street
Llanelli
SA15 3YB
01554 771216

Llangollen
15 Stryd y Castell
Llangollen
LL20 8NY
01978 861410

Llanrwst
London House,
Sgwâr Ancaster
Llanrwst
LL26 0LD
01492 642751

Aberdaugleddau
61 Charles Street
Aberdaugleddau
SA73 2HA
01646 695191

Yr Wyddgrug
10a Stryd Newydd
Yr Wyddgrug
CH7 1NZ
01352 757447

Y Drenewydd
7c Bear Lane
Y Drenewydd
SY16 2QZ
01686 622305

Pontypridd
64 Taff Street
Pontypridd
CF37 4TD
01443 486550

Porthmadog
126 Stryd Fawr,
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9NW
01766 513167

Prestatyn
143 Stryd Fawr
Prestatyn
LL19 9AS
01745 857230

Y Rhyl
8 Wellington Road
Y Rhyl
LL18 1BG 01745
337069

Abertawe
32 Woodfield Street
Treforys
Abertawe
SA6 8AB 01792
799418

Wrecsam
5 Ffordd Rhos Ddu
Sgwâr y Frenhines
Wrecsam
LL11 1AT
01978 264572

Credwch mewn plant
Barnardo's Cymru

www.barnardos.org.uk

Elusen Gofrestredig Barnardo's 216250 a SC037605
10093cd08